**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

**9 Mehefin 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams

[Ymunodd Dr R Heath-Davies â'r cyfarfod yn dilyn ystyriaeth o Adroddiad y Cyfreithiwr (Cofnod 4 cyfeir)]

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 1.10pm; 1.30pm – 3.10pm]

**1. Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Dr M Havard, Mrs S Hoss a'r Cynghorydd S Yelland. Cynghorodd Dr R Heath Davies ei bod yn cael trafferth i gysylltu.

**2. Datgeliadau o Fuddiant**
Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| *Cofnod 6(a) isod* NP//21/0172/TPO Cwympo cypreswydden Monterey (Cupressus macrocarpa) i lefel y llawr, gan adael y bonyn yn ei le. (T12 ar TPO 33, a enwyd yn anghywir fel Ffynidwydden Douglas) – Beach Court, The Strand, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9EU | Cynghorydd P Baker | Datgan buddiant personol a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth a'r pleidleisio ar y mater. |
| *Cofnod 6(b) isod* NP/17/0722/OUT Datblygiad preswyl o hyd at 14 o anheddau preswyl (gan gynnwys darpariaeth fforddiadwy | Cynghorydd M Evans | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais o dan drafodaeth |

ar y safle) sy'n ymgorffori newidiadau i'r drefn ffyrdd i lunio ffordd fynedfa newydd a seilwaith sy'n gysylltiedig â'r datblygiad – Tir ger Heol Arberth, Dinbych-y-pysgod

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 a 10 Mai 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 a 10 Mai 2021 yn gywir ac yn ddilys.

**4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/21/0172/TPO<br>*Cofnod 6(a) cyfeir* | Cwympo cypreswydden Monterey (Cupressus macrocarpa) i lefel y llawr, gan adael y bonyn yn ei le. (T12 ar TPO 33, a enwyd yn anghywir fel Ffynidwydden Douglas) – Beach Court, The Strand, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9EU | Adrian Dowling (Tyfwr coed - Gwrthwynebydd<br>Duncan Hilling (Saundersfoot mewn Blodau) - Gwrthwynebydd<br>Rowland Williams (Cyfeillion Saundersfoot) - Gwrthwynebydd<br>Martyn Williams – Cyngor Cymuned Saundersfoot<br>Nicola Mallen (Grŵp Arbedwch Coeden Unig Saundersfoot) - Gwrthwynebydd |

| | | |
|---|---|---|
| NP/19/0328/S73<br>*Cofnod 6(c) cyfeir* | Amrywio amod rhif 2 o NP/14/0014 – Llain Datblygiad Preswyl wrth ymyl D, lleiniau wrth ymyl Devon Court, 5 , Freshwater East, Penfro, Sir Benfro | Jenny Vince – Cyngor Cymuned Llandyfái<br>Cyng Tessa Hodgson – Cynghorydd Lleol<br>Rebecca Morris – FEDRHA – gwrthwynebydd<br>Victoria Tomlinson – Gwrthwynebydd<br>Steve Hole – Asiant |
| NP/20/0574/FUL & NP/21/0080/CAC<br>*Cofnod 6(d) Cyfeir* | Adeiladu tŷ preswyl newydd yn lle'r tŷ presennol – Bettws Bach, Parrog, Trefdraeth, SA42 0RX | Geraint John – Asiant |
| NP/21/0044/FUL<br>*Cofnod 6(f) Cyfeir* | Newid defnydd tir yn faes parcio arhosiad byr ar gyfer teithiau cwch i Ynys Dewi – parcio a theithio arfaethedig – Gwesty'r Grove, Stryd Fawr, Tyddewi, SA62 6SB | Susan Preece - Gwrthwynebydd |
| NP/21/0215/FUL<br>*Cofnod 6(l) Cyfeir* | Addasu ac estyniad i'r sgubor bresennol i greu annedd tair ystafell wely. Gwaredu'r garafán breswyl sefydlog bresennol. Adleoli'r sied wair bresennol ac yn ei lle adeiladu stabl – Bower Farm, Aberllydan, Hwlffordd, SA62 3TY | Ruth Birt-Llewellyn - Ymgeisydd |

**5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a

dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, dyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

**NODWYD**

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

[Cynghorodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu amrywio trefn yr agenda er mwyn delio â'r cais i gwympo'r goeden Gypryswydden Monterey yn Saundersfoot gael ei ystyried gyntaf. Cytunodd y Pwyllgor i hyn.]

| | | |
|---|---|---|
| (a) | CYFEIRNOD: | NP/21/0172/TPO |
| | YMGEISYDD: | Mr Hopkinson, The Beach Court (Saundersfoot) Management Co Ltd |
| | CYNNIG: | Cwympo cypreswydden Monterey (Cupressus macrocarpa) i lefel y llawr, gan adael y bonyn yn ei le. (T12 ar TPO 33, a enwyd yn anghywir fel Ffynidwydden Douglas) |
| | LLEOLIAD: | Beach Court, The Strand, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9EU |

Adroddwyd bod y goeden o dan sylw wedi'i lleoli ar frigiad i'r dwyrain o Beach Court ar y Strand yn Saundersfoot. Roedd cais Gorchymyn Diogelu Coeden (GDC) wedi dod i law i dorri'r goeden am y rhesymau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad – yn fyr oherwydd diffygion yn amharu ar gywirdeb strwythurol y goeden, gwaith amharu costus, gwaith rheoli heb ei wneud ers i'r cais blaenorol gael ei wrthod, annhebygol y caiff gwaith rheoli ei wneud am na wyddys pwy yw'r perchennog a phwy sydd â'r cyfrifoldeb, cyflwr y goeden yn gwaethygu yn ogystal â'r amgylchedd gwreiddiau, perygl annerbyniol a methiant y goeden wedi'i ragweld.

Roedd y swyddog o'r farn, er nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr asiant yn ddigonol nac yn cynnig y wybodaeth ddiweddaraf i gyfiawnhau gwaredu'r goeden, roedd yna bryderon ynghylch diogelwch yr ardal oddi amgylch trwy anaf/difrod oherwydd y canghennau oedd yno eisoes.

Cydnabuwyd bod y goeden yn nodwedd amlwg o draeth Saundersfoot ac y byddai ei gwaredu yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gymeriad yr ardal ond, fodd bynnag, ni fu'r un cais i'w rheoli ers gwrthod y cais blaenorol i'w thorri yn 2017, a'r pryder pennaf oedd a fyddai'n debyg o gael ei rheoli yn y dyfodol pe bai'r cais i'w chwympo yn cael ei wrthod.

Felly argymhelliad y swyddog oedd cymeradwyo'r cais oni bai y gwnaed cais GDC i reoli'r goeden a bod gwaith rheoli'n cael ei wneud o fewn chwe mis i ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod dderbyn cais GDC i gadw a rheoli'r goeden, yn ogystal â chaniatáu trefnu a chyflawni'r gwaith. Pe na bai cais i reoli'r goeden yn cael ei dderbyn oddi fewn i'r amserlen a nodwyd, ynghyd â chyflawni'r gwaith angenrheidiol, dylai gwaredu'r goeden gael ei gymeradwyo.

Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddog pa mor ddiogel oedd y goeden yn y tymor byr, canolig a hir, ac atebodd ei bod yn anodd dweud p'un a fyddai a phryd y byddai'n methu gydag unrhyw raddfa o sicrwydd, ond roedd rheolaeth o'r goeden yn amlwg yn angenrheidiol a byddai ei hirhoedledd yn dibynnu ar raddfa'r rheolaeth a wneid, am fod pryderon tymor hir yn ymwneud ag erydiad y brigiad lle safai, ac o bosib byddai angen arolwg geodechnegol. Cadarnhaodd bod y tir ar hyn o bryd heb ei gofrestru ond fe allai unrhyw un gynnig gwneud gwaith ar y goeden ond byddai rhaid iddyn nhw gadarnhau perchnogaeth, a chael caniatâd pwy bynnag fyddai'r perchennog yn ogystal â chwennych cyngor cyfreithiol priodol o ran cyfrifoldeb. Argymhellwyd y gellid derbyn unrhyw gais oddi fewn i'r chwe mis nesaf am fod yna wyth wythnos o gyfnod penderfynu ar gyfer ceisiadau GDC.

Am fod yna nifer o gyrff yn awyddus i siarad am y cais hwn, cytunodd y Cadeirydd y medren nhw gael 10 munud rhyngddyn nhw. Byddai pedwar gwrthwynebydd yn cael 2.5 munud yr un. Y siaradwr cyntaf oedd Adrian Dowling o gwmni Arb-aid a oedd wedi'i wahodd gan y gwrthwynebwyr i gyflwyno cyngor arbenigol. Cyfeiriodd at yr Asesiad Coeden Gweledol roedd wedi'i gyflawni ar ran Cyfeillion Saundersfoot ac yn benodol casgliad 5.4 oedd yn dweud bod system wreiddiau'r goeden yn unigryw am fod ei phrif wreiddiau wedi ymwthio i'r strata creigiog i gynorthwyo ei sefydlogrwydd. Golygai hyn bod y goeden yn strwythurol gadarn ond dylid gosod rhagor o bridd a matiau gweol o amgylch ei gwaelod i atal erydu pellach. Credai mai'r broblem oedd corun y goeden lle'r oedd canghennau wedi'u difrodi gan wyntoedd cryfion. Cynghorodd bod angen asesu'r toriadau a strwythur y canghennau, a bod angen gwaredu'r rhai oedd wedi torri ac i deneuo'r brig i ganiatáu i'r gwynt chwythu trwyddi. Er ei bod yn bosib i bob coeden fethu, daeth i'r casgliad y gellid arbed y goeden hon gyda rhywfaint o waith adfer. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch cywirdeb y graig lle'r oedd y goeden yn sefyll, dywedodd Mr Dowling ei fod o'r farn bod y graig odditani yn cynnwys llifoedd lafa yn

gysylltiedig â chrib y llosgfynydd a geir rhwng Saundersfoot a Wisemans Bridge, yn hytrach na brigiadau glo.

Yr ail siaradwr oedd Duncan Hilling yn cynrychioli Saundersfoot mewn Blodau. Esboniodd iddo gael ei hyfforddi mewn garddwriaeth ac iddo fod yn Brif Arddwr yng Nghasell Pictwn cyn ymddeol. Roedd hefyd cyn hynny wedi cynorthwyo i archwilio coed yn y sir i asesu p'un a oedd angen GDC arnyn nhw. Roedd wedi archwilio'r goeden ac ni ddaeth o hyd i glefyd fyddai'n bygwth ei heinioes ond cytunodd bod angen tocio'r goeden er mwyn lleihau pwysau'r gwynt. Nododd bod y goeden wedi'i diogelu gan y clogwyn, a bod y clogwyn hwnnw yn gorfodi gwyntoedd o'r dwyrain i godi a hynny eto'n darparu peth diogelwch. Dywedodd iddo gael ei eni yn Saundersfoot cyn i'r goeden gael ei phlannu a nododd fel yr oedd yn nodwedd amlwg ar hyd yr arfordir. Gofynnodd i'r Pwyllgor os oedd yna unrhyw ffordd o ddiogelu'r goeden er mwyn parhau i hyrwyddo'r pentref a'r olygfa traeth.

Y siaradwr nesaf oedd Nicola Mallen yn cynrychioli Grŵp Arbedwch Coeden Unig Saundersfoot. Nododd ei bod yn siarad fel eiriolydd ar ran y goeden a darllenodd gerdd roedd wedi'i chyfansoddi, ac yn cynnwys cyfeiriad at yr Awdurdod yn arbed y goeden rhag cael ei thorri yn 2017, ond nad oedd y gymuned yn ymwybodol o'r angen i wneud gwaith adfer. Gwnaeth y sylw bod y goeden yn ychwanegu at y synnwyr o le ac at gymeriad y pentref ac yn ychwanegu at lesiant y gymuned. Aeth y pennill yn ei flaen i ddweud bod y cais cyfredol i gwympo'r goeden wedi uno'r gymuned, gan fod preswylwyr, ymwelwyr ac alltudion o bob rhan o'r byd (gan gynnwys tudalen ffesbwc gyda 1300 o ffrindiau) wedi ychwanegu eu llais a chodi arian i arbed y goeden, ac roedd hi'n fwriad i sefydlu grŵp gorchwyl/Pwyllgor, yn cynnwys cynrychiolwyr Cyfeillion Saundersfoot, Arbedwch Coeden Unig Saundersfoot, y Cyngor Cymuned a Saundersfoot mewn Blodau, a fyddai'n canfod cyllid i gyflawni'r gwaith a nodwyd yn adroddiad y Coedydd. Nododd hefyd bod yna ar hyn o bryd ddigonedd o fywyd gwyllt oddi amgylch ac oddi fewn i'r goeden, a gofynnodd am i'r goeden gael ei hachub a'i hanrhegu i'r gymuned.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan Martyn Williams ar ran Cyngor Cymuned Saundersfoot (CCS) (fel ymgynghorydd statudol rhoddwyd pum munud iddo i siarad). Esboniodd eu bod yn cymryd eu swyddogaeth fel ymgynghorwyr ar faterion cynllunio yn gwbl o ddifrif ac er nad oedden nhw'n arbenigwyr roedd ganddyn nhw ddealltwriaeth o'u cymuned, ac roedden nhw wedi pleidleisio'n unfrydol i wrthwynebu'r cais. Esboniodd Mr Williams ei fod hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Nofio Dydd Calan a oedd yn paratoi asesiad risg 23 tudalen ar gyfer yr achlysur blynyddol er mwyn bodloni'r Cyngor Sir. Dywedodd y byddai'r un ymdrech yn cael ei wneud gan CCS o ran y goeden ac fe fydden nhw'n cydweithio gyda rhanddeiliaid eraill i ganfod ffyrdd i ddiogelu ac i gynnal y goeden am ei

bod yn nodwedd eiconig – o fewn y gymuned roedd yn cyfateb i Dwr Eiffel neu'r Cerflun Rhyddid. Byddai cymuned hyfyw Saundersfoot yn ffurfio grŵp gorchwyl i ddarparu sicrwydd i berchnogion fflatiau y byddai gwaith yn cael ei gyflawni, ac yn chwennych arbenigedd proffesiynol a chyllid i gyflawni hyn. Disgrifiodd Mr Williams y goeden fel crynhoad o'r tirlun ac roedd yn un o ddwy nodwedd (y llall oedd Monkstone Point) oedd yn dal sylw wrth edrych o'r traeth neu'r harbwr. Roedd wedi bod yn ysbrydoliaeth i awduron, wedi'i gosod ar glawr llyfr, a hefyd wedi bod yn gysur i weithwyr iechyd rhwng shifftiau yn ystod y pandemig diweddar, yn cyfrannu at lesiant ysbrydol a meddyliol llawer o bobl yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Os nad oedd y goeden yn beryglus anogodd y Pwyllgor i wrthod y cais.

Wrth ddiolch i Mr Williams am araith llawn angerdd, gofynnodd nifer o aelodau pam nad oedd unrhyw weithredu wedi bod ynghylch y goeden ers y cais blaenorol yn 2017, gan ofyn am sicrwydd y byddai gwaith nawr yn cael ei wneud. Cydnabu y dylai cynnwys adroddiad 2017 fod wedi ei weithredu ond ni wyddys pwy yw'r perchennog tir a doedd yna ddim ymchwilidau wedi'u gwneud. Roedd y pentref yn cymryd cyfrifoldeb am y diffyg gweithredu ac am wneud iawn am hynny trwy gydweithio i sicrhau goroesiad y goeden. O ran yr amserlen, dywedodd y byddai'r grwpiau'n gwneud pob ymdrech i ddelio â'r sefyllfa o fewn chwe mis ond credai efallai y byddai amserlen o naw mis yn well.

Y siaradwr terfynol, eto'n rhannu'r deng munud, oedd Rowland Williams ar ran Cyfeillion Saundersfoot. Roedd ei araith yn canolbwyntio ar berchnogaeth y tir roedd yr adroddiad yn dweud nad oedd wedi'i gofrestru a galwodd am ymchwiliad ehangach. Gofynnodd i'r Awdurdod i wneud hyn a chymryd dalen o lyfr Cyngor Sir Penfro drwy ofyn i berchnogion posib i brofi nad y nhw oedd y perchnogion. Dywedodd bod gan y goeden werth mwynder sylweddol a doedd yna'r un achos wedi'i wneud i'w gwaredu ar sail diogelwch. Terfynodd trwy ddweud o ystyried y bwriad i ddathlu Jiwbili Platinwm y Frenhines yn 2022 gyda chynllun plannu coed cyhoeddus (Canopi Gwyrdd y Frenhines), byddai'n drychineb pe bai'r goeden yn cael ei dinistrio.

Cytunodd yr Aelodau bod llawer o rinwedd yn yr hyn roedden nhw wedi'i glywed gan y siaradwyr, ac er bod pawb yn cytuno bod angen gwneud gwaith ar y goeden, roedd rhywfaint o bryder y gallai'r ffaith bod cymaint o grwpiau ynghlwm yn debygol o oedi'r materion. Tra nad oedden nhw am weld y goeden yn cael ei chwympo roedden nhw'n gytun bod angen terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais GDC, ac fe gafodd ei gynnig a'i eilio y dylid ymestyn y cyfnod amser a argymhellwyd gan y swyddog o chwe mis i 12 mis. Fe ofynnon nhw hefyd am gael gwybod pa gynnydd oedd yn cael ei wneud ac ac os na fyddai cais ar gyfer rheoli'r goeden yn cael ei gyflwyno byddai'r cais i dorri'r goeden yn dod nôl i'r Pwyllgor. Gwnaed cais hefyd i'r

Awdurdod weithio gyda'r rhanddeiliaid ac i ddefnyddio pa bwerau Pryniant Gorfodol oedd ganddyn nhw o ran y tir.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc y byddai swyddogion yn hapus i gynghori'r grwpiau ynghylch rheolaeth o'r goeden ac i anfon diweddariadau rheolaidd i'r Aelodau trwy gyfrwng e-byst. Ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yn ymwybodol o unrhyw bwerau Pryniant Gorfodol oedd gan yr Awdurdod er y gallai ymholi ymhellach pe bai angen.

Cynigiwyd diwygiad wedyn a'i eilio trwy ddweud y dylai cais GDC gael ei gyflwyno o fewn chwe mis a'r gwaith i gael ei wneud o fewn 12 mis, a phe na bai hynny'n cael ei wneud dylai'r cais gael ei gyflwyno drachefn ger bron y Pwyllgor.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais i alluogi cyflwyno GDC i reoli'r goeden gael ei wneud o fewn chwe mis i ddyddiad y cyfarfod a'r gwaith rheoli i'w wneud o fewn 12 mis, a'i ddychwelyd i'r Pwyllgor pe na bai'r naill derfyn amser neu'r llall heb ei wireddu.**

[Ni chymrodd y Cynghorydd M Evans unrhyw ran yn y drafodaeth ar y cais canlynol gan iddo ddatgelu buddiant rhagfarnol]

| | | |
|---|---|---|
| (b) | CYFEIRNOD: | NP/17/0722/OUT |
| | YMGEISYDD: | Messrs Hill, Hill, Wood ac Ymddiriedolaeth Caister Castle |
| | CYNNIG: | Datblygiad preswyl o hyd at 14 o anheddau preswyl (gan gynnwys darpariaeth fforddiadwy ar y safle) sy'n ymgorffori newidiadau i'r drefn ffyrdd i lunio ffordd fynedfa newydd a seilwaith sy'n gysylltiedig â'r datblygiad |
| | LLEOLIAD: | Tir i'r gorllewin o Heol Arberth, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro |

Adroddwyd bod y cynnig ar gyfer datblygiad preswyl ar dir glas ar ymyl anheddiad Dinbych-y-pysgod. Dywedwyd wrth y Pwyllgor ei fod yn cael ei ystyried yn ddatblygiad o bwys. Roedd y cais ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol ac roedd pob mater wrth gefn.

Roedd y safle wedi'i amgylchynu ar dair ochr gan goetir rhannol-naturiol hynafol ac i'r dwyrain o'r safle roedd Heol Arberth (A478), y brif ffordd i mewn i'r dref o'r gogledd, er bod y safle wedi'i ranguddio i raddau helaeth o'r agwedd yma o ganlyniad i lysdyfiant a thopograffi'r safle mewn cysylltiad â'r ffordd.

Roedd y manylion mynediad ymhlith y materion wrth gefn i'w penderfynu yn y dyfodol, ac adroddwyd bod hyn yn debygol o olygu cyffordd ynys bwgan newydd o Heol Arberth, yn cynnwys cyfleuster troi i'r dde penodedig i gerbydau'n cyrraedd y datblygiad o'r gogledd. Byddai'r cynigion hefyd yn cynnwys ailffurfio gosod allan cyffordd bresennol Lady Park (ar yr ochr gyferbyn i'r ffordd i'r safle). Byddai'r mynediad yn arwain at heol ystad fewnol oddi fewn i'r safle lle fyddai'r tai arfaethedig.

Roedd y safle wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad preswyl yng Nghynllun Datblygu Lleol 2013. Yn dilyn dad-neilltuo'r safle roedd asiant yr ymgeisydd wedi dweud y byddai'r datblygiad ar gyfer tai fforddiadwy'n unig. Mewn egwyddor roedd y swyddogion o'r farn bod lleoliad y safle yn ffurfio lleoliad cynaliadwy, lle fyddai caniatáu rhyddhau tir o dan amgylchiadau eithriadol i ddiwallu angen am dai fforddiadwy yn dderbyniol. Roedd y gosod allan presennol yn dangos dwysedd o tua deg annedd fesul hectar a thra bo hyn yn is na'r 30 annedd fesul hectar a nodir fel lleiafswm dwysedd, sydd wedi'i nodi ym mholisi 51 o'r CDLl2, byddai'n bosib ei gefnogi am na fyddai darn helaeth o'r safle yn cael ei ddatblygu oherwydd y glustogfa lydan wrth yr ardal goetir gerllaw, a'r angen i greu mynediad o raddiant derbyniol.

Nododd y Cyfreithiwr  bod y darn o'r adroddiad oedd yn ymwneud â'r effaith ecolegol  yn dweud y byddai'r cynnig yn cael effaith ecolegol derbyniol,  ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar Ardal Gadwraeth Arbennig yr Aberoedd a Bae Caerfyrddin (AGA) a Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a AWA Llynoedd Bosherston. Gofynnodd am eglurhad p'un a oedd hyn wedi'i benderfynu yn dilyn Asesiad Priodol neu ystyriwyd nad oedd Asesiad o'r fath yn angenrheidiol. Eglurodd y swyddog bod Asesiad Priodol wedi digwydd ac roedd hyn wedi'i gytuno gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Yr argymhelliad oedd dirprwyo'r cais i swyddogion i'w gymeradwyo yn amodol ar gytundeb adran 106 i sicrhau darparu tai fforddiadwy ar y safle, ac amodau eraill wedi'u gosod allan yn yr adroddiad, ac fe gafodd hyn ei gynnig a'i eilio. Er hynny roedd yr Aelodau am sicrwydd ynghylch diogelu y coed aeddfed oedd yn amgylchynu'r safle, effaith y goleuo ar y coetir a phoblogaethau ystlumod, yn ogystal ag effaith y mynediad ar yr A487, a'r fynedfa i Lady Park a'r gwaith peirianyddol fyddai'n angenrheidiol i gyflawni hyn.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i swyddogion i'w gymeradwyo, yn amodol ar gytundeb adran 106 i sicrhau darparu tai fforddiadwy ar y safle.  Pe na bai cytundeb wedi'i selio o fewn tri mis i benderfyniad y Pwyllgor rhoddid dirprwyaeth i'r swyddogion i wrthod y cais.**

**Roedd y cais hefyd yn dibynnu ar amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad; cymeradwyo materion wrth gefn; yn unol â chynlluniau; yn unol â paramedrau graddfa amlinellol; cyflwyno a chymeradwyo cynllun goleuo; Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, Cynllun Rheoli a Thirweddu a Hyrwyddo Ecolegol; oriau gwaith a gweithrediadau cysylltiol; yn unol ag Adroddiad Gwerthusiad Ecolegol; cynllun manwl mynediad, gosod allan y ffordd a chyfleusterau parcio oddi ar y stryd; tirweddu; draenio dŵr wyneb; lefelau; a chynllun ysgrifenedig o ymchwilio o ran archeoleg.**

(c) CYFEIRNOD: NP/19/0328/S73
YMGEISYDD: Mr G Perfect
CYNNIG: Amrywiad ar amod 2 o NP/14/0014
LLEOLIAD: Llain Datblygiad Preswyl wrth ymyl D, lleiniau wrth ymyl Devon Court, 5 , Freshwater East, Penfro, Sir Benfro

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i ystyried yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor pan gafodd ei ohirio i ganiatáu trefnu archwiliad safle (Cofnod 3 cyfeir).

Atgoffwyd yr Aelodau bod gan y safle hanes cynllunio hir, a bod yna gychwyn adeiladu wedi'i wneud, o ran NP/14/0014 ar gyfer annedd newydd arwahan, am fod lefel y llawr gwaelod, y balconi allanol a'r feranda wedi'i gorchuddio ar y gweill. Roedd y cais gerbron y Pwyllgor yn chwenych amrywiad ar amod rhif 2 o'r caniatâd hwn i ganiatáu diwygio dyluniad yr adeilad, ac i gynnwys cynnydd mewn uchder. Roedd y dyluniad diwygiedig yn cynnwys dau brif floc yn rhedeg ar y cyd gyda tho ar ongl dros y ddau, a rhyngddyn nhw roedd yna ddolen deulawr gyda tho gwastad.

Terfynodd y swyddog trwy ddweud bod yr egwyddor o ddatblygiad preswyl ar y safle hwn wedi'i dderbyn ac ystyriwyd bod gan yr annedd arfaethedig raddfa, ffurf, crynswth a manylion oedd yn dderbyniol. Ystyriwyd hefyd bod yr annedd yn eistedd yn gysurus oddi fewn i'r llain a bod ei chyd-destun yn dderbyniol oddi fewn i'r llecyn oddi amgylch. Ystyriwyd bod y fynedfa yn dderbyniol a'u bod yn ceisio cadw'r coed cyfredol ar du blaen y safle. Ystyriwyd bod golwg allanol y datblygiad yn briodol o ran gosodiad y safle oddi fewn i Dwyni Freshwater East (gan gofio bod amrywiaeth o ddyluniadau pensaernïol a manylion oddi fewn iddo) ac ni ystyriwyd y byddai'n niweidiol anffafriol o ran golwg nag i fwynder gweledol na phreifatrwydd anheddau gerllaw.

Ystyriwyd bod y cynnig deulawr yn cadw at gymeriad cyffredinol yr ardal a hefyd yn diogelu nodweddion arbennig y rhan hwn o'r Parc

Cenedlaethol. Roedd y datblygiad hefyd yn cynnwys lefel llawr arfaethedig a fyddai'n sicrhau y byddai crynswth y datblygiad yn defnyddio topograffeg presennol y safle mewn modd cadarnhaol i ranguddio rhag y dirwedd union ac ehangach. O'r herwydd, ac yn amodol ar atodlen o amodau priodol, ystyriwyd bod y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â gofynion polisïau Cynllun Datblygu Lleol 2 oedd wedi'i fabwysiadu.

Nododd y swyddog, ers ysgrifennu'r adroddiad, bod llythyr arall wedi dod i law wrth Gyngor Cymuned Llandyfái yn holi p'un a oedd yn bosib ystyried y cais o dan S73 neu p'un a ddylid fod wedi cyflwyno cais llawn. Cynghorodd y swyddog nad oedd yr hyn a gyflwynwyd yn cael ei ystyried yn newid sylfaenol i'r cais gwreiddiol ac roedd yr argymhelliad yn parhau yn un o ddirprwyo cymeradwyo, yn amodol ar amodau, i ganiatáu cwblhau Cytundeb Adran 106 o ran darparu cyfraniad ariannol tuag at dai fforddiadwy.

Roedd yna nifer o siaradwyr, wedi'u caniatau trwy ddisgresiwn y Cadeirydd, a'r cyntaf ohonyn nhw oedd Jenny Vince o Gyngor Cymuned Llandyfái. Diolchodd i'r Cadeirydd am ganiatáu iddi annerch y Pwyllgor eto am iddi gael ei chynghori nad oedd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned yn cael cadw llygad ar yr ymweliad safle. Dywedodd ei bod yn cymryd yn ganiataol y byddai'r Aelodau wedi darllen ei sylwadau a wnaed yng nghyfarfod mis Ebrill, a oedd yn ffurfio rhan o'r cofnodion, ac fe gynghorodd fod y sylwadau hynny yn dal yn berthnasol, ac felly roedd hi am ganolbwyntio ar un mater yn unig. Diolchodd i'r swyddog am gywiro hanes cynllunio y safle o ran y disgrifiad o NP/14/0014 a nododd bod y cynnig presennol yn cael ei ddisgrifio fel byngalo hefyd. Fodd bynnag, roedd y lluniadau trychiol oedd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y cais hwnnw yn dangos byngalo wedi'i osod i mewn yn y llethr gyda byndiau pridd yn darparu rhanguddio, ond roedd y rhain nawr wedi'u gwaredu, ac roedd yr annedd yn ymddangos fel tŷ deulawr. Roedd y Cyngor Cymuned yn pryderu bod y cais wedi'i gyflwyno o dan S73 am fod hwn yn ymwneud â mân ddiwygiadau. Credai y dylid fod wedi cyflwyno cais o'r newydd oherwydd natur benodol y diwygiadau yn cynnwys cynnydd mewn maint o 70%, newidiadau i ddisgrifiad y datblygiad o fyngalo i dŷ gyda llawr gwaelod a llawr cyntaf, a newidiadau i'r dyluniad trwy waredu'r byndiau a oedd cynt yn rhanguddio'r llawr gwaelod. Roedd y ffeithiau hyn yn dystiolaeth nad mân ddiwygiadau a wnaed ac ni ddylid fod wedi delio â nhw o dan S73. Dymuniad y Cyngor Cymuned oedd naill ai bod y cais yn cael ei dynnu nôl a chais newydd yn cael ei gyflwyno neu bod y cais yn mynd yn ei flaen yn ei ffurf bresennol fel roedd wedi'i gymeradwyo o dan NP/14/0014.

Yr ail siaradwr oedd Tessa Hodgson, y Cynghorydd Sir lleol. Diolchodd i'r Pwyllgor am fynd i weld y safle i weld sut roedd yn eistedd yn y tirlun.

Mynegodd bryder ynghylch yr ymweliad am fod y cofnodion yn cadarnhau bod yr asiant wedi ateb cwestiwn ynghylch gweithredoedd hawl dramwy, ond ni roddwyd cyfle i neb arall siarad. Er lles tegwch a chwarae teg credai y dylai'r Pwyllgor fod wedi clywed barn pawb neu neb o gwbl. Ond roedd yr Aelodau wedi gallu gwerthfawrogi'r materion ynghylch colli preifatrwydd a hawliau tramwy. Roedd y Cynghorydd yn cytuno gyda'r Cyngor Cymuned bod y cynnig mor wahanol nes y dylai fod wedi'i gyflwyno fel cais newydd ac nid amrywiad; credai hi bod yna eiddo hyd yn oed yn fwy yn cael ei gynnig ar y safle a ddisfgrifiodd fel 'cripian cynllunio'. Roedd Freshwater East yn le arbennig a dylai datblygu fod yn gyfatebol a sensitif. Credai y byddai'r cynnig a oedd gerbron y Pwyllgor yn erydu'r nodwedd arbennig honno, ac unwaith y byddai wedi'i golli ni ellid ei gael yn ôl.

Ymatebodd y Cadeirydd i ddweud bod yr asiant wedi siarad yn ystod yr ymweliad safle dim ond i ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, a doedd dim trafodaeth wedi digwydd.

Roedd y ddau siaradwr olaf yn rhannu'r pum munud o amser siarad rhyngddyn nhw. Dywedodd Rebecca Morris ei bod yn dal i arddel y pwyntiau a gododd yn y cyfarfod diwethaf; bod gweithredoedd yr hawliau tramwy yn effeithio ar bobl a gwasanaethau yn yr ardal, a bod y rhain yn berthnasol i'r cais; yn ail roedd yn cytuno gyda'r siaradwr blaenorol y dylai hwn fod yn gais o'r newydd yn hytrach nag amrywiad o dan S73; ac yn drydydd dylai manylion y Gorchymyn Tomlin gael eu datgelu, a dylai'r cyhoedd gael gwybod am unrhyw gytundeb cyfrinachol yn ymwneud â rhoi caniatâd cynllunio. Wrth ymateb i rai o'r pwyntiau wnaed yn yr ymweliad safle, anghytunodd â datganiad y Swyddog Tirwedd a Choed nad oedd y coed wedi'u cynnwys yn y GDC. Roedd hi hefyd yn anghytuno â datganiad y swyddog ei bod yn bosib cyrraedd yr eiddo ar hyd y feidr trwy lwybr arall, am fod yr ymlediad gweledol o ben uchaf Feidr Clychau'r Gog mor ddiffygiol nes bod llawer o bobl, gan gynnwys y gwasanaeth ambiwlans a tân, ddim yn gallu ei ddefnyddio. Roedd hefyd yn anghytuno â datganiad y Pensaer bod gweithredoedd yr hawl dramwy yn caniatáu mynd trwy'r coed, oherwydd yn ôl dau arolwg roedd y trac yn y lle cywir ac roedd hyn wedi'i gadarnhau yn y dyfarniad llys. Yn olaf, roedd yr adeilad arfaethedig mor agos i weithredoedd yr hawl dramwy fel ei fod yn peryglu diogelwch. Roedd y ffaith bod dau gerbyd yn rhwystr ar y llwybr pan oedd yr Aelodau ar y safle yn tanlinellu'r broblem. Nododd Ms Morris bod cynllunio wedi'i fwriadu i reoli tirfeddianwyr er mwyn adlewyrchu diddordeb cyhoeddus ac nid oedd o'r farn bod y cais hwn yn gwneud hynny, yn groes i Egwyddor Sandford. Doedd hi chwaith ddim yn deall sut y gallai'r Cyfreithiwr ddweud nad oedd y Gorchymyn Tomlin, nad oedd wedi'i weld, yn berthnasol, ac nad oedd angen ei ystyried. Cynghorodd ei bod fel Cadeirydd Cymdeithas Deilwyr Gweithredoedd wedi codi'r

materion hyn gyda'r Swyddog Monitro, ac roedd hi felly wedi synnu bod y cais wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod i'w benderfynu.

Y gwrthwynebydd arall yn rhannu'r pum munud oedd Victoria Tomlinson. Roedd hithau hefyd yn pryderu nad oedd y Gorchymyn Tomlin wedi'i ddatgelu. O ran coed ar y safle, atgoffodd yr Aelodau bod y Swyddog Coed a Thirwedd wedi cyfeirio at y coed hynny oedd yn dioddef o Glefyd Coedd Ynn gan nodi na fydden nhw felly'n darparu rhanguddio. O ran goleuo, roedd amod y cynllun yn ymwneud â goleuo allanol yn unig, ac ni fyddai'n cyfyngu golau o'r ffenestri mawrion llawr cyntaf oedd yn tremio dros eiddo i'r de a'r gorllewin. O ran y ffordd a diogelwch ffordd, roedd y Cyfreithiwr wedi cynghori ynghynt y gellid ei ystyried, roedd y defnydd o fynediad arall yn drafferthus am fod yr ymlediad gweledol yn wantan gan fod yr allanfa o dan reolaeth trydydd parti trwy dir pridwerth, ac felly roedd y rhan fwyaf o bobl yn cymryd y llwybr trwy'r llain. O ran y rhwystr credai Ms Tomlinson na ellid cydymffurfio ag amod chwech am nad oedd dau o'r tri llecyn parcio o fewn perchnogaeth yr ymgeisydd. Roedd y safle hefyd yn brin o fan troi. Yn olaf roedd ganddi bryder nad oedd amod wedi'i gynnwys i ddiogelu hawliau trydydd parti.

Mewn ymateb i gyfeiriadau Ms Tomlinson at gytundebau cyfrinachol, dywedodd y Prif Weithredwr bod y cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus, bod siaradwyr wedi'u gwahodd a bod rhyddid gan Aelodau i godi unrhyw fater. Ystyriai bod yr Awdurdod wedi gweithredu mewn modd priodol, a dylai unrhyw gwynion gael eu cyfeirio at weithdrefn gwyno'r Awdurdod. Dywedodd bod ganddo hyder yn yr Aelodau a'r swyddogion i ddelio â cheisiadau yn briodol.

Y siaradwr olaf oedd Steve Hole, yr asiant.  Roedd yn awyddus i ymateb i ddau fater a godwyd gan wrthwynebwyr. Roedd yn anghytuno'n chwyrn gyda Ms Morris o ran lleoliad y gweithredoedd hawliau tramwy gan gynghori fod yr hyn a ddywedodd yn gynrychioliad teg o safbwynt yr Uchel Lys. Dylai unrhyw heriau gael eu gwneud yn yr Uchel Lys ac nid yn y Pwyllgor. Roedd hefyd yn amau'r datganiadau o ran parcio a throi gan ddweud bod y rhain yn anghywir. Dywedodd fod llawer o'r hyn oedd wedi ei ddweud yn fater o farn ac nad oedd dim tystiolaeth wedi'i gyflwyno i gefnogi'r honiadau. Mynnodd Mr Hole mai'r arbenigwyr oedd swyddogion yr Awdurdod a chanmolodd yr adroddiad proffesiynol oedd gerbron y Pwyllgor.

Ymatebodd y Cyfreithiwr wedyn i nifer o'r pwyntiau a wnaed gan y gwrthwynebwyr. Cydnabu bod y Gorchmynion Tomlin yn peri anhawster i awdurdodau lleol am eu bod yn gyfrinachol yn ôl gorchymyn llys, ac felly doedden nhw ddim yn eistedd yn gyffyrddus wrth ymyl llywodraethu agored. Fodd bynnag, doedd dim cyfrinachedd yn yr achos hwn ac am iddo weld y Gorchymyn medrai gadarnhau nad oedd yna gytundeb

cyfrinachol o ran rhoi caniatâd cynllunio. O ran y cais wedi'i gyflwyno fel Amrywiad S73 yn hytrach na chais newydd, cynghorodd bod yr Awdurdod wedi derbyn cyngor cyfreithiol ar y mater, ac roedd y swyddogion yn parhau'n fodlon fod y cias wedi'i gyflwyno'n gywir. Cadarnhaodd ei gyngor blaenorol bod diogelwch yn ystyriaeth berthnasol, fel roedd mwynder, ond doedd presenoldeb neu rhwystriant unrhyw hawl dramwy ddim yn berthnasol am ei fod yn fater sifil. Terfynodd trwy ddweud ei fod yn fodlon bod y cais wedi'i drin yn briodol.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro bod yr Awdurdod wedi bod yn gohebu gyda Ms Morris ynghylch Gorchymyn Tomlin rhyw 18 mis ynghynt pan gafodd ei chynghori ei fod yn gyfrinachol ar sail gorchymyn llys, ac y gallai chwennych caniatâd yr holl bartïon iddo gael ei wneud yn gyhoeddus.

Mynegodd yr Aelodau eu hyder yn y swyddogion ac roedden nhw'n derbyn cyngor y swyddog cyfreithiol. Roedden nhw'n chwennych sicrwydd o ran uchder yr adeilad arfaethedig yn y tirlun a'i weledededd, yn arbennig pe collid y coed ynn, goleuo, parcio a throi. Atebodd y swyddog nad oedden nhw'n ystyried y byddai yna effaith niweidiol ar breifatrwydd na mwynder am fod yr eiddo agosaf beth pellter i ffwrdd ar drychiad uwch. Roedd amodau wedi'u cynnwys i reoli tirweddu a goleuo ac roedd yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon o ran y cynigion ar gyfer parcio a throi.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio/Arweinydd Tîm i roi caniatâd cynllunio yn ddibynol ar gwblhau Cytundeb neu Ymrwymiad Unochrog Adran 106 o ran darparu cyfraniad ariannol tuag at dai fforddiadwy. Byddai angen y ddogfen gyfreithiol Adran 106 o fewn tri mis i ddyddiad y cyfarfod, a phe na bai yn dod i law o fewn yr amser hwnnw, rhoddid awdurdod i'r swyddogion i wrthod y cais ar sail prinder gwybodaeth o dan weithdrefnau dirprwyo.**

**Roedd caniatâd cynllunio hefyd yn ddibynnol ar gyflawni amodau'n ymwneud ag amseriad y cais, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, cynllun hyrwyddo beioamrywiaeth, goleuo allanol, tirweddu, parcio a draenio dŵr wyneb.**

| | | |
|---|---|---|
| (d) | CYFEIRNOD: | NP/20/0574/FUL |
| | YMGEISYDD: | Mr D Hughes |
| | CYNNIG: | Adeiladu tŷ preswyl newydd yn lle'r tŷ presennol – |
| | LLEOLIAD: | Bettws Bach, Parrog, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0RX |

Adroddwyd bod y cais hwn ar gyfer cyfnewid y byngalo arddull cromen bresennol gydag annedd linellol deulawr gyda thair ystafell wely. Roedd

cais Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel yr annedd bresennol i’w ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod (Cofnod6(e) cyfeir). Fe’i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor am fod argymhelliad y swyddog yn groes i safbwynt Cyngor Tref Trefdraeth.

Am fod y safle yn gorwedd oddi fewn i Ardal Gadwraeth Trefdraeth gofynnwyd am farn Swyddog Cadwraeth Adeiladau’r Awdurdod. Tra iddo argymell gwrthod yn wreiddiol, yn dilyn derbyn darluniau dychmygol ychwanegol ac ymweliad safle roedd y sylwadau hyn wedi’u hadolygu, ac roedd nawr o’r farn y byddai’r effaith ar yr Ardal Gadwraeth yn fychan am fod lefelau wedi’u gostwng a’r eiddo wedi’i osod yn ôl; byddai coed a chloddiau’n darparu rhanguddio pellach. Ymgynghorwyd ymhellach gyda Chyngor Tref Trefdraeth ynghylch y darluniau dychmygol ond doedd eu hargymhelliad o wrthod ddim wedi ei newid.

Nododd y swyddog bod y lleoliad tirwedd lle bwriadwyd codi’r annedd yn bwysig, am y byddai’n naturiol wedi’i guddio o nifer o fannau edrych am ei fod wedi’i osod mewn ‘pant’ yn y dirwedd. Ystyriwyd tra nad oedd dyluniad a graddfa’r annedd yn lle’r un bresennol ddim o reidrwydd yn gweddu i gymeriad yr ardal oddi amgylch, oherwydd y topograffi a’r llawr isaf wedi’i ostwng, disgwylid na fyddai’r effaith naill ai yma nac acw, ac ni ddylai niweidio rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Byddai amod yn gofyn am gytuno ar lefelau yn cael ei gynnwys.

Yn amodol ar amod yn ei gwneud yn ofynnol i gadw’r rhanguddio pren arfaethedig o’r ffenestri llawr cyntaf am byth, ni ystyrid bod yna unrhyw effaith niweidiol i fwynder preswylio.

O ran ecoleg, nodwyd bod yr adroddiad ecolegol gwreiddiol a gyflwynwyd yn fersiwn drafft. Adroddwyd yn y cyfarfod bod sylwadau ers hynny wedi’u derbyn wrth Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a’r Ecolegydd yn gofyn am adroddiad ecolegol wedi’i ddiweddaru, a gofynnwyd am amod ychwanegol o ran darparu Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu i liniaru’r effaith ar yr Ardal Gadwraeth Arbennig gerllaw: gofynnwyd am ddiwygiad hefyd i’r amod goleuo cyfredol i gynnwys arllwys golau oddi fewn i’r eiddo. Roedd angen hefyd prawf o arwyddocâd tebygol am fod yr eiddo mor agos i’r nant a fedrai ddarparu llwybr ar gyfer llygredd i’r traeth; roedd hwn nawr wedi’i gyflwyno a’i anfon at CNC i’w gymeradwyo. Terfynodd y swyddog trwy ddweud ei bod yn bosib cefnogi’r cynllun a gynigiwyd ond roedd yr argymhelliad o gymeradwyo wedi’i newid i ddirprwyo, oherwydd y materion ecolegol oedd heb eu datrys.

Roedd yna un siaradwr, yr asiant, Geraint John. Cynghorodd bod ei sylwadau yn berthnasol i’r cais hwn a’r cais dilynol yn gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer yr annedd i’w chodi yn lle’r annedd bresennol. Canmolodd drylwyredd y swyddog yn cynhyrchu adroddiad mor fanwl a

nododd nad oedd yr un ymateb wrth y cyhoedd wedi'i dderbyn i'r naill gais na'r llall. O ran y cais Ardal Gadwraeth i ddymchwel yr adeilad presennol, nododd nad oedd yr adeilad presennol yn cael ei ystyried o unrhyw werth pensaernïol na hanesyddol, ac nad oedd ganddo fawr o gyfraniad cadarnhaol. Roedd y cais am annedd arall yn ei lle yn cael ei ystyried yn dderbyniol o ran polisi cynllunio, ac ystyriaethau perthnasol eraill, ac ni fyddai'r lleoliad na'r dyluniad yn effeithio ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, a byddai'n diogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Doedd yna chwaith ddim gwrthwynebiadau technegol, priffyrdd, ecolegol, mwynder na phreifatrwydd. Roedd y cais felly yn cael ei ystyried yn briodol a derbyniol o ran maint, ffurf, deunyddiau a dyluniad ac anogodd y Pwyllgor i gymeradwyo yn unol â'r argymhelliad.

O ystyried bod uchder yr eiddo arfaethedig yn debyg i eiddo'r rheiny gerllaw, ac er bod ei ddyluniad yn wahanol, roedd yr Aelodau ar y cyfan yn gefnogol, ac fe gafodd yr argymhelliad diwygiedig o ddirprwyo caniatâd yn amodol ar amodau, gan gynnwys y rheiny oedd wedi'u hychwanegu yn y cyfarfod, ei gynnig a'i eilio. Byddai'r amod diwygiedig yn delio â phryderon ynghylch llygredd golau.

Fodd bynnag, roedd nifer o'r Aelodau'n anhapus gyda dyluniad y cynnig a'i adeiledd tebyg i flocyn yr oedden nhw'n credu y gallai effeithio'n weledol ar y Parc Cenedlaethol o edrych arno o gyfeiriad y môr. Pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo tanlinellwyd pwysigrwydd cytuno ar union lefelau ar gyfer yr annedd fyddai'n cael ei chodi'n lle'r un bresennol.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i swyddogion i roi caniatâd yn amodol ar ymateb derbyniol wrth Gyfoeth Naturiol Cymru o ran y prawf o arwyddocâd tebygol a derbyn adroddiad ecolegol diwygiedig, ac yn amodol ar amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau, goleuo, darparu a chadw'r coed lwfer allanol, parcio a throi, tirweddu, lliniaru ecolegol, arolygon topograffig i sefydlu'r lefelau, a Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu.**

**Cafodd y cafeat safonol o gyflwyno adroddiad ecolegol diwygiedig o fewn tri mis o ddyddiad y Pwyllgor neu ei ddirprwyo i'w Wrthod hefyd ei gytuno.**

(e) CYFEIRNOD: NP/21/0080/CAC
YMGEISYDD: Mr D Hughes
CYNNIG: Adeiladu tŷ preswyl newydd yn lle'r tŷ presennol –
LLEOLIAD: Bettws Bach, Parrog, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0RX

Adroddwyd bod y cais yn chwennych dymchwel adeilad oddi fewn Ardal Gadwraeth, i ganiatáu annedd arall yn ei le a oedd wedi'i ystyried o dan gais NP/20/0574 (Cofnod 6(d) cyfeir). Doedd yr annedd o ddiwedd yr 20fedG ddim o werth hanesyddol na phensaernïol uchel na chwaith o werth esthetaidd, ac ystyriwyd y byddai'r dymchweliad arfaethedig yn diogelu cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

Yr argymhelliad felly oedd y dylid rhoi caniatâd ardal gadwraeth yn amodol ar gymeradwyo cais NP/20/0574 ac yn amodol ar amodau, ond oherwydd materion ecolegol oedd heb eu datrys ynghylch y cais hwnnw, newidiwyd yr argymhelliad i un o ddirprwyo.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i swyddogion i roi caniatad ardal gadwraeth yn amodol ar ymateb derbyniol gan Gyfoeth Naturiol Cymru o ran y prawf o arwyddocâd tebygol a derbyn adroddiad ecolegol wedi'i ddiwygio, ac yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseru'r cais, yn unol â chynlluniau a dogfennau, dymchwel, cynllun tirweddu, lefelau a thrwydded yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017).**

**Cafodd y cafeat safonol o gyflwyno adroddiad ecolegol diwygiedig o fewn tri mis o ddyddiad y Pwyllgor neu ei ddirprwyo i'w Wrthod hefyd ei gytuno.**

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 1.10pm a 1.30pm]*

*[Ymddiheurodd y Cynghorwyr D Clements, M Evans ac M Williams nad oedden nhw'n medru dychwelyd i'r cyfarfod wedi'r toriad am ginio.]*

*[Cyflwynodd y Cynghorydd P Baker ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch y cais canlynol,]*

(f) CYFEIRNOD: NP/21/0044/FUL
YMGEISYDD: Mr Mark Staniforth
CYNNIG: Newid defnydd tir yn faes parcio arhosiad byr ar gyfer teithiau cwch i Ynys Dewi – parcio a theithio arfaethedig
LLEOLIAD: Gwesty'r Grove, Stryd Fawr, Tyddewi, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 6SB

Adroddwyd bod safle'r cais, a orweddai y tu ôl i Westy'r Grove yn Nhyddewi, yn cynnig defnyddio'r tir fel ardal maes parcio ar gyfer defnydd cyfnod byr yn gysylltiedig â'r siwrneai Badau Ynys Dewi, fel rhan o'r gwasanaeth gwennol rhwng Tyddewi a Phorth Stinian. Defnyddiwyd y safle fel mas parcio er 2018, ac roedd y cais wedi'i gyflwyno mewn ymateb i gŵyn gorfodaeth ynghylch newid defnydd o'r tir. Roedd y gosod allan a gyflwynwyd yn dangos lleiniau ar gyfer deg cerbyd i barcio ar y safle gan gynnwys un llain anabl.

Fe fu nifer o wrthwynebiadau wrth eiddo cyfagos yn ychwanegol i wrthwynebiad gan Gyngor y Ddinas. Roedd y rhain wedi'u crynhoi yn yr adroddiad ond roedd nifer ohonyn nhw'n ymwneud â sŵn ac aflonyddu gan gerbydau. Daeth gwrthwynebiad ychwanegol i law ers paratoi'r adroddiad ac roedd ei gynnwys wedi'i amlinellu yn y cyfarfod. Ystyriai'r swyddogion, er y gallai fod yna effaith bychan ar fwynder preswyl, gan fod y safle yng nghanol y dref, doedd sŵn ac aflonyddu gan gerbydau ddim i'r graddau o fod yn andwyol i eiddo preswyl i fedru cyfiawnhau gwrthod y cais. Hefyd roedd ei ddefnydd presennol fel mynediad ac iard ddanfon yn ystyriaeth berthnasol. Roedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi cynghori nad oedd yna wrthwynebiadau ar sail priffyrdd i'r cynlluniau a gyflwynwyd. Yr argymhelliad felly oedd cymeradwyo gydag amodau.

Holodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch defnydd o'r mynediad gan gytuno ei bod yn ymddangos fod angen i drafnidiaeth ar y safle gael ei reoli. Awgrymwyd hefyd bod angen tynhau amod 4 o ran y defnydd o'r safle i atal, er enghraifft, parcio badau.

Roedd yna un siaradwr, Susan Preece, a oedd yn gwrthwynebu. Roedd hi'n amau datganiad yr Awdurdod Priffyrdd bod y cyfleuster wedi gweithredu y llynedd heb drafferth gan nodi bod y mynediad wedi'i ddefnyddio i'w eithaf a'i fod yn is-safonol. Roedd preswylwyr yn dioddef yn andwyol oherwydd effaith bysiau, cerbydau a faniau gwersylla bob awr. Roedd tai'n rheolaidd yn dioddef mygdarth cerbydau oedd yn disgwyl i adael y maes parcio o ganlyniad i dagfeydd ar y stryd fawr, ac am nad oedd yna lwybr troed doedd y preswylwyr ddim hyd yn oed yn medru gadael eu heiddo ar droed am fod y fynedfa wedi'i chau. Nododd bod cais a gyflwynwyd yn 2005 wedi dweud bod y fynedfa'n anniogel er bod gwelliannau wedi'u cynnwys ar y pryd. Dyfynnodd Mrs Preece o

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 18 oedd yn cynghori lle bynnag bod mynediad yn is-safonol dylid gwneud gwelliannau mynediad, ond, fodd bynnag, doedd yr un wedi'i gynnwys gyda'r cais hwn. Roedd yna hefyd mater o ddiogelwch cerddwyr am eu bod wedi'u cuddio gan bileri uchel y glwyd; mewn arolwg yr wythnos flaenorol roedd 334 o gerddwyr wedi'u cyfrif mewn awr yn croesi'r fynedfa ac roedd llawer mwy ar ochr arall y stryd fawr. Ar ben hynny doedd y perygl hwn ddim wedi'i liniaru gan y cyfyngiad cyflymder 20 MYA a gynigiwyd.  O ddyfynnu o Lawlyfr Strydoedd yr Adran Drafnidiaeth rhoddid blaenoriaeth uwch i gerddwyr dros fodurwyr ond, fodd bynnag, roedd y cais hwn yn gwrthdroi'r flaenoriaeth gan gynyddu trafnidiaeth gerbydau gan niweidio diogelwch cerddwyr. Roedd y Llawlyfr hefyd yn darparu cyfarwyddyd ynghylch yr angen i gerbydau ildio i gerddwyr ar gyffyrdd. Nododd y byddai'r cais hwn yn arwain at gynnydd mewn symudiadau cerbydau lle'r oedd gwelededd yn gyfyng, nifer y cerddwyr yn uchel a'r palmant yn gul.  Terfynodd trwy ddweud bod yr ymgeisydd, cyn rhoi ystyriaeth i'r cais, wedi gweithredu cyfleuster gwennol gydag ymwelwyr yn parcio yn y maes parcio cyhoeddus gerllaw heb unrhyw effaith andwyol ar breswylwyr na diogelwch cerddwyr. Nid oedd yn ystyried bod yna unrhyw beth i'w gymeradwyo o ran y cais ac anogodd y Pwyllgor i'w wrthod.

Cynghorodd Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc bod yr Awdurdod wedi bod yn cydweithio ers sawl blwyddyn gyda Chyngor y Ddinas a rhanddeiliaid yn Nhyddewi i ganfod datrysiad i'r broblem parcio ym Mhorth Stiniain, ac roedd datrysiad bws gwennol wedi'i hyrwyddo. Roedd un o'r gweithredwyr felly wedi cynnig dewis arall a oedd gerbron y Pwyllgor i'w ystyried. Mewn ymateb i bryderon roedd modd ystyried amod ychwanegol o ran rheoli trafnidiaeth ar y safle i gynnwys manylion ynghylch codi teithwyr ac amseriadau cerbydau'n cyrraedd a gadael i ddelio â materion tagfeydd.

Tra oedden nhw'n cefnogi'r cynllun o deithio gwennol mewn egwyddor mynegodd nifer o'r Aelodau bryder ynghylch y cais oherwydd lleoliad y parcio, ond ar yr amod o gynnwys amod rheoli trafnidiaeth a diwygiad i amod 4, yn nodi mai ar gyfer defnydd teithiau cychod yn unig fyddai'r llecyn parcio, cynigiwyd cymeradwyo ac fe eiliwyd. Gofynnwyd hefyd am i'r cynllun rheoli trafnidiaeth gynnwys arwyddion yn nodi y dylai cerbydau ildio i gerddwyr wrth y fynedfa.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau, marcio'r lleiniau, cynllun rheoli trafnidiaeth a defnydd ar gyfer parcio ar gyfer teithiau cychod yn unig.**

(g) CYFEIRNOD: NP/21/0060/FUL
YMGEISYDD: Mr a Mrs Saber
CYNNIG: Codi tŷ newydd yn lle’r hen dŷ
LLEOLIAD: Morwennau, Poppit, Aberteifi, Sir Benfro, SA43 3LP

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi’i ystyried yn y cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor pan gafodd ei ohirio er mwyn trefnu archwiliad safle (Cofnod 3 cyfeir). Roedd y safle’n cynnwys annedd un llawr o wneuthuriad asbestos rhagblaen ac yn cynnwys dwy ystafell wely a dwy ystafell dderbyn. Roedd y cynnig presennol yn cynnwys pedair ystafell wely ar y llawr isaf a chegin ac ardal fwyta/byw lan llofft. Y bwriad oedd gostwng lefelau’r annedd bresennol i ganiatáu llawr ychwanegol.

Cafwyd gwrthwynebiadau ynghylch tremio oherwydd y ffenestr arddull ffenestr gromen ar y trychiad de dwyreiniol, ond, fodd bynnag, roedd y swyddogion o’r farn nad oedd y cynnydd mewn tremio yn ddigonol i wrthod y cais am fod y pellter rhwng y ddau eiddo yn 46m. Ystyrid bod y cais yn cydymffurfio â phob polisi perthnasol Cynllun Datblygu Lleol 2, ac felly'r argymhelliad oedd cymeradwyo gydag amodau.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo’r cais yn amodol ar osod amodau’n ymwneud ag amseru’r cais, yn unol â chynlluniau a dogfennau, gwaredu hawliau datblygu wedi’u caniatáu, sampl o ddeunyddiau, strategaeth lefelau’r llawr isaf a lliniaru goleuo.**

(h) CYFEIRNOD: NP/21/0102/FUL
YMGEISYDD: Ms Teresa Bowen
CYNNIG: Dymchwel y tŷ preswyl a’r garej presennol. Adeiladu tŷ preswyl a garej newydd –
LLEOLIAD: Ringstone, Haroldstone Hill, Aberllydan, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 3JP

Adroddwyd mai byngalo dormer wedi’i godi yn 1974 oedd yr annedd bresennol ac wedi’i newid a’i hestyn yn sylweddol ers yr adeiladwaith gwreiddiol. Roedd yn union gyferbyn i gyfres o bedair annedd wedi’u cysylltu i gyfeiriad y gorllewin.

Yr annedd yn ei lle a fwriadwyd oedd tŷ chwe ystafell wely ac roedd yn fwriadol yn adleisio arddull y byngalo gwreiddiol yn y 1970au ond gyda darnau mawr o do gwastad a dim ond ardal to ar oledd bychan.

Yn ychwanegol roedd datganiadau trydydd parti wedi dod i law yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd a mwynder, ac roedd y swyddogion o’r farn ar sail yr ansicrwydd sylweddol ynghylch y posibilrwydd o dremio a bod yn andwyol i breifatrwydd, nid oedd yn bosib cefnogi’r cais.

Roedd yna ddau siaradwr ynglŷn â'r cais, ond cyn eu gwahodd i siarad, cynghorodd y Cadeirydd, ei fod wedi arddeall y byddai cynnig yn cael ei wneud i ohirio'r cais er mwyn ymweld â'r safle.

Cynghorodd Mr Gardner ei fod yn cytuno y byddai archwiliad safle o gymorth a chytunodd i oedi nes ceid canlyniad y bleidlais fel ei fod yn medru siarad cyn penderfynu'r cais.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais a threfnu archwiliad safle.**

(i) CYFEIRNOD: NP/21/0110/FUL
YMGEISYDD: Mr Andrew Hebard
CYNNIG: Codi tŷ newydd yn lle'r hen dŷ
LLEOLIAD: Pen-castell, Trewyddel, Sir Benfro, SA43 3BU

Adroddwyd bod yr annedd dair ystafell wely bresennol yn gorwedd uwchben traeth Ceibwr ar y clogwyni i'r gogledd orllewin o Drewyddel. Roedd Llwybr yr Arfordir yn rhedeg heibio'r eiddo ac roedd y safle mewn man hynod o amlwg yn y Parc Cenedlaethol. Yn hanesyddol, y gred oedd i'r adeilad fod yn eiddo i wylwyr y glannau, ond roedd wedi'i foderneiddio a'i or-ymestyn yn y blynyddoedd diwethaf.

Roedd y cais wedi'i ddiwygio'n sylweddol ers ei gyflwyno gyntaf, a'r cynnig nawr oedd annedd yn lle'r annedd bresennol gyda thair ystafell wely ar y llawr gwaelod a dwy arall ar y llawr cyntaf. Byddai'r to yn cael ei drefnu ar dri ffurf gwahanol, gyda chladio sinc ar yr adran ddeulawr uchaf, to llechi iselach ac yna to glaswellt gwastad gyda simne ategol.

Roedd y swyddogion o'r farn nad oedd y raddfa na'r dyluniad a gynigiwyd yn gydnaws â pholisïau'r Awdurdod, ac nid oedd yr annedd a gynigiwyd yn lle'r un bresennol yn llwyddo i hyrwyddo'r dirwedd naturiol ac yn debygol o achosi ymwthio gweledol sylweddol. Yr argymhelliad oedd gwrthod.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod yna berygl o dir ansefydlog yn y lleoliad hwn ac roedd disgwyl asesiad proffesiynol.

Rhoddwyd cynnig gerbron ac fe'i eiliwyd i ohirio er mwyn trefnu archwiliad safle fel bo'r Aelodau'n medru gweld pa mor sensitif oedd y safle hwn.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais a threfnu ymweliad safle.**

(j) CYFEIRNOD: NP/21/0130/FUL
YMGEISYDD: Mr Andrew and Mrs Caroline Cooklsey
CYNNIG: Dymchwel yr eiddo a'r garej presennol ac yn eu lle adeiladu eiddo a garej newydd gan gynnwys gwaith draenio a thirweddu. Caniatâd i'r tŷ mas presennol
LLEOLIAD: Rhigian, Dinas, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0SS

Atgoffwyd yr Aelodau bod cais blaenorol ar gyfer newidiadau ac estyniadau i'r eiddo hwn ar y safle hwn.

Roedd Cyngor Tref Trefdraeth wedi argymell gwrthod y cais ac am y rheswm hynny roedd y cais gerbron y Pwyllgor. Ond argymhelliad y swyddog oedd, er gwaethaf pryderon y Cyngor Tref, roedd yr annedd arfaethedig yn cydymffurfio â phob polisi lleol a chenedlaethol perthnasol, a'r argymhelliad oedd cymeradwyo yn amodol ar osod amodau.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y swyddog bod y caniatâd blaenorol yn dal mewn grym pe bai rhaid syrthio'n ôl arno, yn arbennig am fod rhai o'r amodau eisoes wedi'u cyflawni. Tra nad yn gwrthwynebu ail-adeiladu'r waliau tynnodd yr Aelod sylw at bwysigrwydd amod 7 er mwyn sefydlu lefelau'r eiddo.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau'n ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau, tirweddu, gorffeniadau, gwaredu hawliau datblygu, goleuo, lefelau lloriau a datganiad dull coedyddiaeth.**

(k) CYFEIRNOD: NP/21/0177/FUL
YMGEISYDD: Mr R Atkins
CYNNIG: Ychwanegu estyniad unllawr i dalcen y tŷ dros y dramwyfa bresennol, a darparu lle parcio ychwanegol i ffrynt yr eiddo
LLEOLIAD: 7, Green Meadow Close, Marloes, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 3AF

Cafodd y cais hwn ei dynnu o agenda'r cyfarfod.

**NODWYD.**

[Cyflwynodd Mrs J James ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais canlynol]

(l) CYFEIRNOD: NP/21/0215/FUL
YMGEISYDD: Ms Ruth Birt-Llewellin
CYNNIG: Addasu ac estyniad i'r sgubor bresennol i greu annedd tair ystafell wely. Gwaredu'r garafán breswyl sefydlog bresennol. Adleoli'r sied wair bresennol ac yn ei lle adeiladu stabal

LLEOLIAD: Bower Farm, Aberllydan, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 3TY

Adroddwyd bod y cais am addasu ac ymestyn y sgubor garreg bresennol gan osod estyniad to ar ongl llawr cyntaf. Roedd cais blaenorol yn 2020 wedi'i dynnu nôl am na ellid ei gefnogi ar sail dyluniad, a thra bo'r cais presennol wedi diwygio siap y to doedd graddfa'r addasiad ddim wedi'i leihau.

Roedd y safle y tu fas i unrhyw ganol diffiniedig yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 a thra bo addasu'r adeilad yn cael ei ganiatáu o dan Bolisïau 7 a 48 yn amodol ar dalu swm cymudol (roedd yna gytundeb unochrog wedi'i dderbyn ynglŷn â hyn) ni fyddai adeiledd o annedd newydd yn lle'r sgubor yn cael ei gefnogi.

Roedd swyddogion o'r farn nad oedd dyluniad y cynllun cyfredol yn sensitif nac mewn cydymdeimlad â'r adeilad traddodiadol oedd yn cael ei addasu, ac nad oedd yn diogelu na hyrwyddo nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. O'r herwydd ni ellid ei gefnogi a'r argymhelliad oedd gwrthod.

Roedd yr ymgeisydd wedi nodi ei bwriad i siarad ar y mater. Fe'i cynghorwyd y byddai cynnig i ohirio'r cais er mwyn trefnu archwiliad safle yn cael ei roi gerbron a rhoddwyd iddi'r dewis o siarad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor yn lle hynny, fodd bynnag dewisodd siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw.

Esboniodd Ms Ruth Birt-Llewellyn ei bod wedi byw ar y fferm ers 30 mlynedd ac wedi gweithio ar y fferm ac ar y maes gwersylla yn ogystal ag oddi ar y fferm. Dywedodd ei bod am addasu'r sgubor nid er mwyn creu bwthyn gwyliau ond er mwyn iddi fedru parhau i fyw yno a chychwyn teulu. Ni chredai y byddai'r annedd yn ymwthiol yn y llecyn nac o fannau pellach. Roedd lefel y llawr yn amrywio, roedd yna glawdd 5tr y tu ôl i'r sgubor a oedd yn cyfyngu golau i'r lefelau isaf. Roedd yr hyn a ddisgrifiwyd fel adain gefn mewn gwirionedd yn fynedfa tu blaen yr oedd ei angen rhag gorfod torri i mewn i'r clawdd, a fyddai ddim ond i'w weld o'r awyr. Roedd yna hefyd wahaniaeth o 4tr rhwng gogledd a de'r safle ac roedd hyn yn benthyg ei hun ar gyfer adran ddeulawr. Byddai ei uchder yn fychan o gymharu â'r ffermdy, ac ni fyddai'n uwch na'r garafán bresennol

a fyddai'n cael ei gwaredu gan hyrwyddo'r llecyn. Ni fyddai gosodiad y grŵp yn newid. Cynghorodd bod ei theulu wedi byw yng Nghymuned y Glannau er 140 mlynedd ac wrth i'r gymuned ddioddef o ganlyniad i 70% o eiddo yn cael eu gwerthu fel tai gwyliau, roedd o'r farn bod ymwelwyr yn gwthio trigolion lleol o'r fro. Doedd y mwyafrif o eiddo yn natblygiadau Sandbanks ac Atlantic View gerllaw ddim yn gartrefi gydol y flwyddyn. Esboniodd Ms Birt-Llewellin, am iddi fyw mewn carafán ar y safle am 16 mlynedd byddai'r syniad o orfod gadael ei chartref yn Sir Benfro er mwyn cychwyn teulu yn cael effaith andwyol ar ei chyflwr meddyliol, yn arbennig am ei bod o'r farn bod dynion dŵad, gydag arian, yn adeiladu beth bynnag maen nhw'n ei ddymuno, a rhestrodd nifer o enghreifftiau lleol. O ganlyniad i sylwadau swyddogion ynghylch y cais blaenorol roedd wedi cyflwyno newidiadau a'r hyn a oedd gerbron y Pwyllgor nawr oedd eiddo tair ystafell wely gyda mynediad anabl. Nododd nad oedd yna wrthwynebiadau lleol ac y byddai'n croesawu ymweliad safle pe byddai o gymorth i brofi ei bod yn awyddus i wella a hyrwyddo natur hanesyddol y ffarm.

Cafodd cynnig i ohirio'r achos i ganiatáu archwiliad safle ei roi gerbron a'i eilio.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais i ganiatáu trefnu archwiliad safle.**

## 7. Apeliadau

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc ar dri apêl (yn erbyn caniatâd cynllunio a roddwyd gan yr Awdurdod) a oedd ar hyn o bryd wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru, a manylodd ynghylch pa gam roedd pob un wedi'i gyrraedd yn y broses apêl hyd yma.

**NODWYD.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2021 heb eu diwygio. |